

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (Y FENNI, SIR FYNWY I LANGRWYNE, POWYS) (TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng y Fenni a Glangrwyne.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder 10 mya dros dro ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o bwynt 135 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick, y Fenni hyd at bwynt 219 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Ffordd Glangrwyne, Glangrwyne. Dim ond yn ystod gwaith confoi y disgwylir y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Hydref 2026. Disgwylir y bydd y cyfyngiad a'r gwaharddiad dros dro, y bydd eu hyd a'u lled yn amrywio, yn weithredol yn ysbeidiol o 20:00 o'r gloch ar 14 Hydref 2026 am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf. Bydd hysbysiad am y gwaith a wneir yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei arddangos cyn iddo ddechrau.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

C WYNN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A40 TRUNK ROAD (ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE TO GLANGRWYNEY, POWYS) (TEMPORARY 10 MPH SPEED LIMIT & NO OVERTAKING) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Abergavenny and Glangrwyne.

The effect of the Order is to impose a temporary 10 mph speed limit on the length of the A40 trunk road that extends from a point 135 metres north-west of the centre-point of Hardwick Roundabout, Abergavenny to a point 219 metres west of its junction with Glangrwyne Road, Glangrwyne. The 10 mph speed limit is only expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 14 October 2026. The temporary restriction and prohibition, whose extent will vary, are expected to operate intermittently from 20:00 hours on 14 October 2026 for a maximum duration of 12 months. Notice of all works being undertaken during this period will be displayed before they start.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

C WYNN
Transport
Welsh Government